# CA3 Cymraeg – Ysgrifennu dyddiadur

**Gweithgaredd 1**

**Atebion**

**Berfau'r Presennol**

- **Mae'r** Nadolig drosodd am flwyddyn arall.
- **'Dwi** mor, mor lwcus. *(Rydw i)*

**Berfau'r Gorffennol**

- **Teimlais** yn gyffrous...
- [a] **chodais** cyn Mam a Dad...
- **Cripiais** i lawr ....
- Pan **welais** y goeden, **roeddwn** mewn sioc...
- **Cefais** fynydd ...
- **Roedd** môr...
- **Agorais** bob un...

**Berfau'r Dyfodol**

- Rwy'n gobeithio **bydda i'n** cael chwarae...

**Dydd Llun, Rhagfyr 26**

Helo ddyddiadur,

**Mae'r** Nadolig drosodd am flwyddyn arall. **Teimlais** yn gyffrous ofnadw drwy'r nos, a **chodais** cyn Mam a Dad, a chyn y wawr! **Cripiais** i lawr y grisiau yn araf cyn imi agor drws y 'stafell fyw. Pan **welais** y goeden, **roeddwn** mewn sioc... **Cefais** fynydd o anrhegion gan Siôn Corn! **Roedd** môr o bapur lapio'n llanw llawr y 'stafell erbyn imi orffen agor fy anrhegion. **Agorais** bob un yn ofalus, gan geisio dyfalu'r cynnwys. **Roedd** Siôn Corn wedi gwneud gwaith arbennig, chwarae teg iddo.

 © BBC

‘**Dwi** mor, mor lwcus i gael yr holl anrhegion yma! Fy ffefryn yw car electrig a heol sy’n troelli fel neidr ar hyd y llawr. Rwy’n gobeithio **bydda i’n** cael chwarae trwy’r dydd bob dydd!

 © BBC